

Cofnod o faterion amser Covid 19 Mawrth - Gorffennaf 2020

Llwybrau

Carreg y Gath – Mae cryn bryder wedi bod ynglyn â llwybr rhif 94. Ar ddechrau'r llwybr mae yna arall gyfeirio wedi cymeryd lle gan fod y perchennog wedi canfod fod y llwybr yn mynd tu cefn i'r ty ar un amser. Y cwyn gwreiddiol a ddaeth yn ystod yr argyfwng oedd fod y teulu yn poeni am iechyd y plant ifanc a oedd yn ardd y ty gyda llwybr cyhoeddus yn mynd heibio mor agos. Erf y mod wedi gyrru dau lythyr i Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt roi sylw a chael peidio arall, gyfeirio nes bydd amser wedi ei roi I gael cyfarfod call, nid oes neb wedi gwranddo, ac mae Cyngor Gwynedd yn amlwg yn fodlon fod y llwybr gwreiddiol yn mynd trwy gefn y ty. Mae yn sicr angen trafod hyn ymhellach pan cawn gyfarfod.

Mae llwybrau y plwyf wedi cael eu torri 2 waith yn ystod yr argyfwng hyd yn hyn, ac wrth gwrs mae'r taliadau wedi eu gwneud am hynny.

Llwybrau rhif 1 a 65 wedi eu adnewyddu gan Cyngor Gwynedd.

Rwyf hefyd yn ymwybodol fod yna bwyntiau wed eu rhoi am gyflwr ambell lwybr yn Bethel ar wefan Bethel. Nid wyf yn siwr pa lwybr yn union ydi'r un mae nhw yn gyfeirio ato. Efallai fod y llwybr yn croesi ambell gyngor arall.

Meinciau

Mae Keith wedi bod o amgylch yn peintio y meinciau, ac wedi gwneud yn sicr eu bod yn ddiogel.

Ysweiriant y Cyngor

Rwyf wedi derbyn ysweiriant blynyddol y Cyngor, ac wedi ei ad newyddu.

Awdit

Yn syth yn dilyn cau lawr, roedd yn ddiwedd Mawrth, ac angen paratoi ar gyfer Awdit mewnol. Rhoddais popeth at eu gilydd a chysylltu a'r adran yn Cyngor Gwynedd. Gan fod pawb yn gweithio o adref, roedd yn ofynnol I mi scanio a gyrru popeth dros y we er mwyn cael awdit.

Roeddwn yn filch o glywed yn ôl fod popeth wedi ei gwblhau o ran awdit mewnol.

O ran y Ffurflen flynyddol a gyrru at y cwmni BDO. Nid yw hyn yn bosib, oherwydd mae yn rhaid I ni gael cyfarfod llawn I drafod a derbyn y Ffurflen flynyddol, cyn iddi a'r dogfennau perthnasol cael eu gyrru I'w archwilio.

Rwyf eisioes wedi gorfod rhoi 1 datganiad ar ein gwefan I ddweud ein bod wedi cael awdit mewnol, ac oherwydd yr amgylchiadau and oeddyn yn gallu cyfarfod I drafod y ffurflen.

Os na fydd wedi bod yn bosib I ni gael cyfarfod erbyn diwedd mis Medi, bydd yn rhaid I mi wneud datganiad ychwanegol, ac uwchlwytho y ffurflen flynyddol ar y wefan, gan nodi nad ydi wedi bod yn bosib I ni gael awdit hyd yn hyn. Felly, caf weld sut mae pethau yn datblygu, a cario mlaen I weithio gyda awgrymiadau sydd yn cael ei yrru o Awdit Cymru gan Deryck Evans. Dilyn canllawiau a da ni yn iawn.

Cwynion

Biniau Baw Cwn o Bro Elidir, Dinorwig I Deiniolen – Nid oes dim un bin I roi baw ci rhwng yr ardal yma. Rwyf wedi gyrru llythyr I Cyngor Gwynedd, a chais I roi bin yn rhywle ar Gallt y Foel, ond hyd yn hyn heb gael ymateb.

Yna gan eu bod wedi newid dyddiad casglu sbwriel, roedd tipyn o ddryswch gan yr eglwys yn Deiniolen pa ddyddiad oedd angen rhoi bin Brown a Gwyrdd allan. Cysylltais are u rhan a'r siarad gyda rhywan nath addo gyrru calendr allan I mi. Choeliwch I ddim, heb dderbyn y calendr byth. Mi gefais sgwrs gyda rhywyn arall pythefnos yn ôl dros y wê yn gaddo gyrru calendr a dwi dal yn disgwyl!

Parcio costcutter Stryd Newydd – Yna death cwyn fod ceir yn parcio holl ffordd I fyny, ac ar linellau melyn, a bod yn amhosib I weld I dynnu allan yno. Cysylltais a Cyngor Gwynedd ac mae warden parcio yn gwneud ei ffordd bob hyn a hyn ac yn rhoi ticed parcio os bydd rhaid.

Ymddiswyddo

Fel y gwyddoch i gyd, mae Martin wedi ymddiswyddo gan ei fod yn symud tŷ i blwyf arall. Ysgrifenis lythyr yn diolch iddo am ei waith ac yn dymuno yn dda iddo ef a'i deulu yn eu cartref Newydd.

Mae Gwawr hefyd wedi ymddiswyddo gan ei bod yn gweld yn anodd cael yr amser gyda plentyn ifanc. Rwyf wedi diolch iddi hithau hefyd.

Llythyr Dilwyn Williams

Yn dilyn gyrru ymlaen ei lythyr, os cofiwch mi oedd Y Cyngor Sir yn chwilio am awgrymiadau o sut y gallant wella y ffordd y maent yn delio gyda'r pandemig. Rwyf wedi ymateb ar ran Y Cyngor gyda awgrymiadau a dderbyniais.

Clwb crefft Rhiwlas – Rwyf wedi derbyn llythyr yn datgan eu bwriad o agor cyfrif am ei fod yn grwp Newydd. Nid ydynt byth wedi medru agor cyfrif a gan fod yr amser o 6 mis wedi pasio nid ydynt yn gallu cyflwyno y siec I'r banc. Rwyf wedi ymateb gan ddweud fod Y Cyngor methu cyfarfod I drafod hyn, ac y cawb drafod y sefyllfa unwaith byddwn yn gallu cyfarfod.

Hysbysfwrdd Pentrefi

Yn dilyn yr argyfwng presennol, roedd gweld fod yr angen I gae hysbysfwrdd ym mhob pentref yn gryf fwy nac erioed. Mae cais wedi wedi ei godi unwaith eto ac efallai y cawn drafod hyn ac o bosib gweithredu pan gawn gyfarfod.

Eisteddfod Deiniolen

Dderbyniais lythyr gan ysgrifennydd Eisteddfod Deiniolen yn datgan na fydd eisteddfod yn y pentref eleni oherwydd y sefyllfa bresennol ac na fyddent yn gofyn am nawdd gan Y cyngor Cymuned, ond yn gobeithio cynnal eisteddfod yn 2021.

Gwasanaeth Llarpio Antur Waunfawr

Rwyf hefyd wedi bod yn brysur yn clirio yr holl waith papur a ballu sydd angen cael gwared ohono I gadw gyda'r ddeddf GDPR. Yn dilyn I mi yn bersonol falu sawl llarpiwr, cefais air gyda Gareth a penderfynwyd er mwyn diogelu y buasem yn defnyddio y gwasanaeth yma sydd ond yn codi £6.50 y sach, ac yn ei nol a phopeth. Rwyf wedi llenwi 1 sach a hanner!! Ond mae hyn yn sicrhau fod ganddom ffordd ddiogel o llarpio dogfenau sydd gyda

manyllion personol neu dogfenau sensitive.

Cynllunio

Dyma Ceisiadau cynllunio wedi eu derbyn:

Wern Difyr, Bethel – Estyniad deulawr yn y cefn

Llwyn Eithin, Bethel – Gosod ffens 2m o uchder o fewn rhan o'r wal ffin bresennol

Rhes Fictoria, Deiniolen – Ymgynghoriad estyniad ar gynllunio

Gilwern, Penisarwaun – Cais deiliad ty ar gyfer tynnu ffenestr dormer to fflat bresennol a chodi ffenestr dormer to ar lethr yn ei le ynghyd a balcony Newydd

Bodlondeb, Bethel – Estyniad unllawr yn nhu blaen yr eiddo.

Cadarnhau Taliadau

512 – 716.00

513 – 605.93

514 – 36.00

515 – 493.66

516 – 492.00